# Cyngor Sir Caerfyrddin
# Adroddiad Blynyddol Cynghorydd 2022-2023

Mae'r adroddiad blynyddol hwn yn amlinellu gweithgareddau'r Cynghorydd a enwir isod am y cyfnod o fis Mai 2022 tan fis Mai 2023 (Blwyddyn y Cyngor). Fe'i darperir er gwybodaeth i etholwyr, ac nid at unrhyw ddiben arall. Y farn a fynegir yn yr adroddiad yw barn y Cynghorydd ac nid yw'n adlewyrchu barn Cyngor Sir Caerfyrddin o reidrwydd.

| **Y Cynghorydd: Shelly Godfrey-Coles** | **Adran Etholiadol: Porth Tywyn** |
|---|---|

| **Adran 1: Rôl a Chyfrifoldebau** |
|---|
| ***Pwyllgorau'r Cyngor:*** |
| Y Cyngor Llawn |
| Y Pwyllgor Craffu Lle, Cynaliadwyedd a Newid Hinsawdd |
| |
| |
| ***Cofnod Presenoldeb:*** Cofnod presenoldeb - Cyng. Shelly Godfrey-Coles (llyw.cymru) |

| **Rhan 2: Gweithgareddau Etholaeth** |
|---|
| • Mae materion parhaus yn ymwneud â'r harbwr wedi parhau trwy gydol y flwyddyn. Mae hyn wedi golygu bod angen cysylltu'n aml â thrigolion, busnesau a Chyngor Sir Caerfyrddin.<br><br>• Cefnogi unigolion a theuluoedd sydd â phroblemau cymdeithasol, gan gynnwys tai, anghydfodau rhwng cymdogion a rhoi cymorth o ran materion cymhleth gan gynnwys problemau iechyd meddwl.<br><br>• Gweithio gyda thrigolion i fynd i'r afael â materion yn ymwneud â'u hamgylchedd gan gynnwys, coed a phlanhigion sydd wedi gordyfu, gwydr wedi torri, baw cŵn.<br><br>• Cefnogi teulu i gael 'plac glas' i'w mam - cytunwyd ar y plac, ac mae'r gwaith cynllunio ar gyfer ei gynhyrchu yn mynd rhagddo, a hynny o dan arweiniad y Grŵp Treftadaeth.<br><br>• Rhannu gwybodaeth am gostau byw â thrigolion.<br><br>• Gweithio mewn partneriaeth â'r Cynghorydd John James i ddelio ag unrhyw faterion a godwyd gan y trigolion. |

| Rhan 3: Cyrff Llywodraethu Ysgolion | | |
|---|---|---|
| ***Rhestr o Gyrff Llywodraethu Ysgolion*** | ***Cofnod Presenoldeb*** | |
| | ***Nifer y Cyfarfodydd*** | ***Canran*** |
| | | |
| Canolfan Dysgu ac Addysgu Uwchradd Sir Gaerfyrddin (CSTLC) | 3 | 75% |
| | | |

## Adran 4: Dysgu a Datblygu

Mynychu sesiynau hyfforddiant a ddarperir gan Gyngor Sir Caerfyrddin

## Adran 5: Gweithgareddau a Materion Eraill

- Ailagor Brownis cyntaf Porth Tywyn a dod yn arweinydd newydd i'r grŵp fel nad oes rhaid i blant o'n tref deithio i gael mynediad i'r grŵp hwn.
- Bod yn rhan o'r gwaith cynllunio ar gyfer dathlu 50 mlynedd ers i'r RNLI ddechrau gweithredu yma ym Mhorth Tywyn.
- Cefnogi'r ymgyrch dros gael toiledau yn Harbwr Porth Tywyn a drefnwyd gan Kathy Start, sef un o'r trigolion, ac o dan ei harweiniad.

| | |
|---|---|
| **Llofnodwyd gan y Cynghorydd: Shelly Godfrey-Coles** | **Dyddiad:** 27/07/23 |